

**BYDD ugeiniau o deuluoedd yn gallu dathlu ysbryd yr wyl gyda digwyddiad am ddim sy'n addo bod yn hollol hudol.**

Canolbwynt digwyddiad cymunedol olaf 2019 Cyngor Tref y Rhyl fydd robin goch 7 troedfedd a fydd yn anhygoel i'w weld. Bydd y cyfaill pluog anferth yn un o sêr y sioe ym mharti Nadolig y cyngor i'w gynnal yn Neuadd y Dref y Rhyl ar ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr.

Gyda hud a lledrith, gemau, disgo ac ymweliad gan westai arbennig, mae 200 o docynnau yn cael eu cynnig am ddim gan alluogi i blant ddechrau cyfrif y dyddiau tan y Nadolig mewn steil.

Bydd *Rockin' Rhyl* yn cloi blwyddyn o ddigwyddiadau llwyddiannus a drefnwyd gan y cyngor tref.

Meddai maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Trwy gydol 2019, mae'r cyngor tref wedi trefnu cyfres o weithgareddau ac ni fydd yn wahanol yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig.

"Byddwn yn cefnogi cyngerdd Christmas Pops sy'n apelio i rai o bob oed, yn helpu i droi ymlaen goleuadau'r Nadolig a byddwn yn cynnal *Rockin' Rhyl,* parti diwedd y flwyddyn i blant iau'r dref.

**Mwy/…**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

“Bydd *Rockin’ Rhyl* yn llawn chwerthin, syndod a mwy nag ychydig o hud a lledrith y Nadolig. Mae tocynnau’n debygol o fynd yn gyflym, felly byddwn y annog pawb i gadw llygaid ar y manylion.”

Bydd tocynnau ar gyfer *Rockin’ Rhyl* ar gael o Dachwedd 1 trwy ddolennau ar ffrydiau Facebook a Twitter y cyngor tref.

Cyn rhyddhau’r tocynnau, bydd y cyngor yn cynnal gweithgareddau Calan Gaeaf am ddim ar y stryd fawr. Bydd cerddwyr stiltiau, rhoddion a pheintio wynebau am ddim ar gael rhwng 11am a 2pm ar Hydref 31.

**Diwedd**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications